Llanwddyn	£1,208.22	£1,409.59	£1,610.96	£1,812.33	£2,215.07	£2,617.81	£3,020.55	£3,624.66	£4,228.77
Machynlleth	£1,324.41	£1,545.14	£1,765.88	£1,986.61	£2,428.08	£2,869.55	£3,311.02	£3,973.22	£4,635.42
Manafon	£1,176.56	£1,372.65	£1,568.75	£1,764.84	£2,157.03	£2,549.21	£2,941.40	£3,529.68	£4,117.96
Meifod	£1,176.69	£1,372.80	£1,568.92	£1,765.03	£2,157.26	£2,549.49	£2,941.72	£3,530.06	£4,118.40
Mochdre gyda Phenstrywaid	£1,182.77	£1,379.89	£1,577.02	£1,774.15	£2,168.41	£2,562.66	£2,956.92	£3,548.30	£4,139.68
Trefaldwyn	£1,233.52	£1,439.11	£1,644.69	£1,850.28	£2,261.45	£2,672.63	£3,083.80	£3,700.56	£4,317.32
Y Drenewydd	a								
Llanllwchaearn	£1,280.37	£1,493.77	£1,707.16	£1,920.56	£2,347.35	£2,774.14	£3,200.93	£3,841.12	£4,481.31
Penybontfawr	£1,194.65	£1,393.76	£1,592.87	£1,791.98	£2,190.20	£2,588.42	£2,986.63	£3,583.96	£4,181.29
Trefeglwys	£1,168.12	£1,362.81	£1,557.49	£1,752.18	£2,141.55	£2,530.93	£2,920.30	£3,504.36	£4,088.42
Tregynon	£1,186.76	£1,384.55	£1,582.35	£1,780.14	£2,175.73	£2,571.31	£2,966.90	£3,560.28	£4,153.66
Trewern	£1,184.16	£1,381.52	£1,578.88	£1,776.24	£2,170.96	£2,565.68	£2,960.40	£3,552.48	£4,144.56
Y Trallwng	£1,307.13	£1,524.98	£1,742.84	£1,960.69	£2,396.40	£2,832.11	£3,267.82	£3,921.38	£4,574.94

SIR FAESYFEDCYMUNED

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Abaty Cwm Hir	£1,180.61	£1,377.37	£1,574.14	£1,770.91	£2,164.45	£2,557.98	£2,951.52	£3,541.82	£4,132.12
Aberedw	£1,167.02	£1,361.52	£1,556.03	£1,750.53	£2,139.54	£2,528.54	£2,917.55	£3,501.06	£4,084.57
Bugeildy	£1,177.84	£1,374.15	£1,570.45	£1,766.76	£2,159.37	£2,551.99	£2,944.60	£3,533.52	£4,122.44
Cleirwy	£1,168.57	£1,363.34	£1,558.10	£1,752.86	£2,142.38	£2,531.91	£2,921.43	£3,505.72	£4,090.01
Diserth a Threcoed	£1,170.67	£1,365.78	£1,560.89	£1,756.00	£2,146.22	£2,536.44	£2,926.67	£3,512.00	£4,097.33
Llanfair Llythynwg	£1,171.64	£1,366.91	£1,562.19	£1,757.46	£2,148.01	£2,538.55	£2,929.10	£3,514.92	£4,100.74
Y Clas-ar-Wy	£1,175.29	£1,371.17	£1,567.05	£1,762.93	£2,154.69	£2,546.45	£2,938.22	£3,525.86	£4,113.50
Glascwm	£1,172.69	£1,368.13	£1,563.58	£1,759.03	£2,149.93	£2,540.82	£2,931.72	£3,518.06	£4,104.40
Trefyclo	£1,203.53	£1,404.11	£1,604.70	£1,805.29	£2,206.47	£2,607.64	£3,008.82	£3,610.58	£4,212.34
Llanbadarn Fawr	£1,172.78	£1,368.24	£1,563.71	£1,759.17	£2,150.10	£2,541.02	£2,931.95	£3,518.34	£4,104.73
Llanbadarn Fynydd	£1,181.97	£1,378.97	£1,575.96	£1,772.96	£2,166.95	£2,560.94	£2,954.93	£3,545.92	£4,136.91
Llanbister	£1,185.81	£1,383.45	£1,581.08	£1,778.72	£2,173.99	£2,569.26	£2,964.53	£3,557.44	£4,150.35
Llanddewi Ystradenni	£1,170.43	£1,365.51	£1,560.58	£1,755.65	£2,145.79	£2,535.94	£2,926.08	£3,511.30	£4,096.52
Llandrindod	£1,216.87	£1,419.69	£1,622.50	£1,825.31	£2,230.93	£2,636.56	£3,042.18	£3,650.62	£4,259.06
Llanelwedd	£1,170.76	£1,365.89	£1,561.01	£1,756.14	£2,146.39	£2,536.65	£2,926.90	£3,512.28	£4,097.66
Llanfihangel									
Rhydieithon	£1,186.69	£1,384.48	£1,582.26	£1,780.04	£2,175.60	£2,571.17	£2,966.73	£3,560.08	£4,153.43
Llangynllo	£1,174.52	£1,370.27	£1,566.03	£1,761.78	£2,153.29	£2,544.79	£2,936.30	£3,523.56	£4,110.82
Llanllŷr	£1,176.57	£1,372.67	£1,568.76	£1,764.86	£2,157.05	£2,549.24	£2,941.43	£3,529.72	£4,118.01
Nantmel	£1,177.10	£1,373.28	£1,569.47	£1,765.65	£2,158.02	£2,550.38	£2,942.75	£3,531.30	£4,119.85
Maesyfed	£1,187.75	£1,385.71	£1,583.67	£1,781.63	£2,177.55	£2,573.47	£2,969.38	£3,563.26	£4,157.14
Penraig	£1,176.05	£1,372.05	£1,568.06	£1,764.07	£2,156.09	£2,548.10	£2,940.12	£3,528.14	£4,116.16
Castell Paun	£1,166.56	£1,360.99	£1,555.41	£1,749.84	£2,138.69	£2,527.55	£2,916.40	£3,499.68	£4,082.96
Penybont									
Llandegla	£1,183.29	£1,380.51	£1,577.72	£1,774.94	£2,169.37	£2,563.80	£2,958.23	£3,549.88	£4,141.53

Llanandras a Norton	£1,197.35	£1,396.90	£1,596.46	£1,796.02	£2,195.14	£2,594.25	£2,993.37	£3,592.04	£4,190.71
Rhaeadr	£1,193.19	£1,392.06	£1,590.92	£1,789.79	£2,187.52	£2,585.25	£2,982.98	£3,579.58	£4,176.18
Llanarmon	£1,200.16	£1,400.19	£1,600.21	£1,800.24	£2,200.29	£2,600.35	£3,000.40	£3,600.48	£4,200.56
Llanddewi-yn-Hwytyn	£1,172.35	£1,367.74	£1,563.13	£1,758.52	£2,149.30	£2,540.08	£2,930.87	£3,517.04	£4,103.21

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Davies ac o 33 pleidlais i 25 gyda 3 yn ymatal

PENDERFYNWYD

- 1. BOD y symiau ym mharagraff 3.1 uchod yn cael eu derbyn gan y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023 yn unol ag Adrannau 32 – 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992**
- 2. BOD y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau ym mharagraff 3.3 fel symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023 ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir.**

8.	CYMERADWYO CYTUNDEB CYFLAWNI AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG POWYS A CHYTUNO I'W GYFLWYNO I LYWODRAETH CYMRU
-----------	--

Bu'r Cyngor yn ystyried Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (RLDP) Powys fel y'i diwygiwyd yn dilyn ymgynghori'n gyhoeddus, ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Beverley Baynham ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer RLDP Powys a chytuno i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

9.	DATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2022/23
-----------	--

Rhoddodd y Cyngor ganiatâd i'r Swyddog Arweiniol Gwasanaethau Cyflogaeth, y Rheolwr Craffu, y Rheolwr Cabinet, a'r cyfieithydd, i aros yn y cyfarfod i gynorthwyo ei gynnal. Gadawodd bob swyddog arall y cyfarfod.

Bu'r Cyngor yn ystyried y Datganiad Polisi Cyflogau'n disgrifio trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflogau a thâl ei staff am y flwyddyn ariannol 2022/23. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen McKenzie ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2022/23.

Daeth y swyddogion yn ôl i'r cyfarfod.

10.	Y CYFANSODDIAD
------------	-----------------------

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd ar ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adrannau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 13, 20 a 23 yn y Cyfansoddiad a'r canllaw drafft i'r Cyfansoddiad.**
- 2. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Cyfansoddiad ag y bo angen i adlewyrchu'r newidiadau a ddisgrifir uchod.**

11. CYNLLUN DEISEBAU

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyflwyno cynllun pensiynau fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bu'r aelodau'n trafod a oedd yr isafswm oed o 10 yn briodol a chawsant eu cynghori bod y Comisiynydd Plant wedi e-bostio i ddweud nad oedd yn teimlo y dylai fod unrhyw isafswm oed.

Gadawodd y Cynghorydd Sir J Williams am 14.36pm.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo Cynllun Deisebau fel sy'n cael ei gyflwyno yn Atodiad 2;**
- 2. Y byddai'r Cynllun Deisebau'n dod i rym o'r 5 Mai 2022; a**
- 3. Y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu'r cynllun ar ôl iddo fod yn weithredol am 12 mis.**

12. PENODI AELODAU (LLEYG) ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
--

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad ar benodi aelodau (lleyg) annibynnol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod un o'r enwebeion wedi tynnu'n ôl. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Panel Tynnu Rhestr Fer a Phenodiadau i benodi trydydd Aelod ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD

- 1. Penodi Mr Gareth Hall a Mrs Lynne Hamilton yn Aelodau (Lleyg) Annibynnol am gyfnod o 5 mlynedd o'r 5 Mai 2022 ymlaen.**
- 2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Panel Tynnu Rhestr Fer a Phenodiadau i benodi trydydd aelod.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh y cyfarfod am 14.59pm.

13. PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Bu'r Cyngor yn ystyried trefniadau i benodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trefniadau i wneud penodiad i'r Pwyllgor Safonau yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad.

14. PENODIADAU I BWYLLGORAU

Nododd y Cyngor y penodiadau a wnaed gan grwpiau gwleidyddol ers y cyfarfod diwethaf a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan awdurdod dirprwyedig:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Graham Breeze i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apêl yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y Grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Michael J Jones i Bwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr a Chymunedau yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y Grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Edwin Roderick i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y Grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir David Evans i'r Pwyllgor Trwyddedu yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y Grŵp Annibynnol.

15. RHYBUDD O GYNNIG – COEDWIGO CYFRIFOL – DULL DI-GYMRYD-MANTAIS A CHYNALIADWY

Cadeiriwyd yr eitem hon gan yr Is-gadeirydd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.

Atgoffodd y Swyddog Monitro'r Cyngor fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb ar gyfer Aelodau gyda budd wedi'i ddatgan, i siarad ond nid pleidleisio ar yr eitem hon. Fe wnaeth yr aelodau canlynol ddatgan budd: Y Cynghorwyr Sir R Powell, D Price, L Corfield, Stephen Hayes, G Jones, A Davies, J Wilkinson, MJ Jones, A Jones, W Powell, E Roderick, P Lewis, R Harris, D Thomas, D Evans, K Curry, R Williams, K Silk, E Vaughan, E Jones, K Laurie-Parry, D Davies, G Pugh, J Morris, K Lewis, J Berriman, D Jones-Poston, D Rowlands, J Jones, B Davies, G Thomas ac L George.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

Bod y Cyngor yn lleisio ei bryder bod cwmnïau aml-wladol yn prynu ffermydd teuluol ym Mhowys a'r ardal ehangach i'r pwrpas o greu 'credydau carbon' i'w gwerthu i gwmnïau sy'n llygru er mwyn gallu cyrraedd eu targedau gwrthbwysu carbon.

Er yn derbyn bod plannu coed ar raddfa fawr yn cael ei gydnabod fel un ffordd o wrthsefyll newid hinsawdd, mae'r Cyngor yn gresynu bod gwrthbwysu carbon yn caniatáu i'r cwmnïau hyn, sy'n gollwng lefelau uchel o garbon, barhau i ymddwyn mor anghynaliadwy.

Hefyd, noda'r Cyngor fod cwmnïau aml-wladol eisoes wedi hawlio dros £1.3m mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Creu Coetir Glastir sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru'n cyfrannu'n ariannol at raglenni gwrthbwysu carbon cwmnïau o'r tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor o blaid yr egwyddor o goedwigo cyfrifol ond yn credu bod yn rhaid i hyn ddigwydd drwy ymgynghori â chymunedau lleol ac na ddylai gael effaith andwyol ar gyflogaeth a diwylliant lleol a hyfywedd cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru:

- I sicrhau nad yw trethdalwyr Cymru'n cyfrannu'n ariannol i goffrau cwmnïau aml-wladol sy'n prynu ffermydd teuluol i blannu coed er mwyn creu 'credydu carbon' ar gyfer eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru er mwyn gallu cyrraedd eu targedau gwrthbwysu carbon.
- I gyflwyno deddfwriaeth cynllunio datblygu fel bod awdurdodau cynllunio lleol fel Powys yn gallu rheoli prosiectau coedwigo, a phenderfynu ar uchafswm y gyfran o dir ar unrhyw fferm y gellir ei ddefnyddio ar gyfer coedwigo heb fod angen caniatâd cynllunio.
- I ddarparu ei gynlluniau coedwigo drwy sefydlu cwmni hyd-braich cyhoeddus i reoli coedwigaeth Cymru a helpu i gyrraedd targedau lleihau carbon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod barn ymgyrchwyr amgylcheddol nad yw plannu coed yn ateb dros nos i newid hinsawdd ac yn cytuno mai dim ond drwy brysuro i leihau llosgi tanwyddau ffosil y gallwn atal y cynnydd parhaus a brawychus mewn tymheredd ar draws y byd.

Fel y cynigydd, dywedodd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan nad oedd yn erbyn plannu coed ond yn gwrthwynebu 'gwyrdgalchu' gan gwmnïau corfforaethol mawr a cholli tir ffermio i fentrau 'un cnwd'. Dywedodd eilydd y cynnig, y Cynghorydd Sir Bryn Davies, fod taliadau oedd wedi eu bwriadu i gefnogi busnesau gwledig a chynhyrchu bwyd yn lleol yn cael eu cymryd gan gwmnïau aml-wladol o dramor er mwyn cymryd mantais ar dir ym Mhowys. Lleisiodd nifer o siaradwyr bryder y byddai pwyntiau bwled dau a thri'n rhy feichus. Dywedodd y cynigydd a'r eilydd eu bod yn barod i dynnu pwynt bwled tri'n ôl ond nid pwynt bwled dau. Pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig diwygiedig ac o 22 pleidlais i 2 gydag 1 yn ymatal

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn lleisio ei bryder bod cwmnïau aml-wladol yn prynu ffermydd teuluol ym Mhowys a'r ardal ehangach i blannu coed i'r pwrpas o greu 'credydu carbon' ar gyfer eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru er mwyn cyrraedd eu targedau gwrthbwysu carbon.

Er yn derbyn bod plannu coed ar raddfa fawr yn cael ei gydnabod fel un ffordd o wrthsefyll newid hinsawdd, mae'r Cyngor yn gresynu bod gwrthbwysu carbon yn caniatáu i'r

cwmnïau hyn, sy'n gollwng lefelau uchel o garbon, barhau i ymddwyn mor anghynaliadwy.

Hefyd, noda'r Cyngor fod cwmnïau amlwladol eisoes wedi hawlio dros £1.3m mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Creu Coetir Glastir sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru'n cyfrannu'n ariannol at raglenni gwrthbwysu carbon cwmnïau o'r tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor o blaid yr egwyddor o goedwigo cyfrifol ond yn credu bod yn rhaid i hyn ddigwydd drwy ymgynghori â chymunedau lleol ac na ddylai gael effaith andwyol ar gyflogaeth a diwylliant lleol a hyfywedd cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru:

- I sicrhau nad yw trethdalwyr Cymru'n cyfrannu'n ariannol i goffrau cwmnïau aml-wladol sy'n prynu ffermydd i blannu coed er mwyn creu 'credydau carbon' ar gyfer eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru er mwyn gallu cyrraedd eu targedau gwrthbwysu carbon.
- I gyflwyno deddfwriaeth cynllunio datblygu fel bod awdurdodau cynllunio lleol fel Powys yn gallu rheoli prosiectau coedwigo, a phenderfynu ar uchafswm y gyfran o dir ar unrhyw fferm y gellir ei ddefnyddio ar gyfer coedwigo heb fod angen caniatâd cynllunio.

Mae'r Cyngor yn cydnabod barn ymgyrchwyr amgylcheddol nad yw plannu coed yn ateb dros nos i newid hinsawdd ac yn cytuno mai dim ond drwy brysuero i leihau llosgi tanwyddau ffosil y gallwn atal y cynnydd parhaus a brawychus mewn tymheredd ar draws y byd.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir A Jenner, G Breeze, L Fitzpatrick a B Davies am 15.45pm.

Gadawodd y Cynghorydd Sir L Skilton am 15.58pm.

Daeth y Cynghorydd Sir G Thomas yn ôl i'r Gadair.

16. RHYBUDD O GYNNIG – TLODI TANWYDD

Bu'r Cyngor yn ystyried y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies:

Noda'r Cyngor hwn fod ei Asesiad Lles ei hun yn 2017 yn cofnodi bod tua 9,500 o aelwydydd ym Mhowys (17%) mewn tloidi tanwydd.

Noda'r Cyngor hwn yr ymchwil a wnaed gan y corff polisi *Resolution Foundation* sy'n darogan y bydd nifer yr aelwydydd yn y DU sy'n dioddef o 'straen tanwydd' – rhai sy'n gwario o leiaf 10% o gyllideb y teulu ar filiau ynni – yn treblu i 6.3m pan ddaw'r cap newydd ar brisiau ynni i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae'r Cyngor yn cytuno â'r arbenigwr ariannol Martin Lewis o *'Money Saving Expert'* nad yw'n ormod dweud y bydd rhai pobl yn y wlad yn gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta erbyn mis Ebrill.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi a chroesawu Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru a wnaeth daliad untro'n unig o £200 i aelwydydd cymwys tuag at dalu biliau tanwydd dros y gaeaf.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU a'n Haelodau Seneddol lleol i roi'r gorau i'r oedi gyda mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd Powys a gweithredu'n syth a sylweddol i gefnogi aelwydydd sy'n cael trafferth ymdopi â'r cynnydd siarp diweddar mewn costau ynni ynghyd â'r cynnydd sydd eto i ddod yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu ar unwaith i gefnogi teuluoedd Powys drwy, o leiaf: gwneud i ffwrdd â TAW ar filiau ynni am flwyddyn o leiaf; cynyddu'r Disgownt Cartrefi Cynnes o £140 i £400 y flwyddyn ac ehangu nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i'w dderbyn i 9.3 miliwn; a chyflwyno cynnydd am flwyddyn gyfan yn nhreth gorfforaethol cynhyrchwyr nwy ac olew Môr y Gogledd er mwyn sicrhau treth ffawd-elw o £1.2 biliwn ar eu helw o'r cynnydd mewn prisiau, er mwyn helpu i leihau biliau ynni.

Fel y cynigydd, roedd y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance yn nodi'r pwysau yr oedd teuluoedd Powys o danynt oherwydd yr argyfwng costau byw ac mai Llywodraeth y DU oedd â'r rhan fwyaf o'r pŵer i ddelio â'r broblem. Dywedodd y Cyngorydd Sir Sandra Davies mai'r bobl leiaf cyfoethog oedd yn cael eu taro fwyaf gan y TAW ar filiau ynni. O 26 pleidlais i 21 gyda 5 yn ymatal

PENDERFYNWYD

Bod y Cyngor hwn yn nodi bod ei Asesiad Lles ei hun yn 2017 yn cofnodi bod tua 9,500 o aelwydydd ym Mhowys (17%) mewn tloedi tanwydd.

Bod y Cyngor hwn yn nodi'r ymchwil a wnaed gan y corff polisi Resolution Foundation sy'n darogan y bydd nifer yr aelwydydd yn y DU sy'n dioddef o 'straen tanwydd' – rhai sy'n gwario o leiaf 10% o gyllideb y teulu ar filiau ynni – yn treblu i 6.3m pan ddaw'r cap newydd ar brisiau ynni i rym ar 1 Ebrill 2022.

Bod y Cyngor hwn yn cytuno â'r arbenigwr ariannol Martin Lewis o *'Money Saving Expert'* nad yw'n ormod dweud y bydd rhai pobl yn y wlad yn gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta erbyn mis Ebrill.

Bod y Cyngor hwn yn nodi a chroesawu Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru a dalodd £200 i aelwydydd cymwys fel taliad untro'n unig tuag at dalu biliau tanwydd dros y gaeaf.

Bod y Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU a'n Haelodau Seneddol lleol i roi'r gorau i'r oedi gyda mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd Powys a gweithredu'n syth a sylweddol i gefnogi aelwydydd sy'n cael

trafferth ymdopi â'r cynnydd siarp diweddar mewn costau ynni ynghyd â'r cynnydd sydd eto i ddod yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Bod y Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu ar unwaith i gefnogi teuluoedd Powys drwy, o leiaf: gwneud i ffwrdd â TAW ar filiau ynni am flwyddyn o leiaf; cynyddu'r Disgownt Cartrefi Cynnes o £140 i £400 y flwyddyn ac ehangu nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i'w dderbyn i 9.3 miliwn; a chyflwyno cynnydd blwyddyn am flwyddyn gyfan yn nhreth gorfforaethol cynhyrchwyr nwy ac olew Môr y Gogledd i sicrhau treth ffawd-elw o £1.2 biliwn ar eu helw o'r cynnydd mewn prisiau, er mwyn helpu i leihau biliau ynni.

17. RHYBUDD O GYNNIG – DEDDF LLUOEDD ARFOG 2021

Fe wnaeth y Cyngorwyr A Jenner, C Mills, D Price, G Ratcliffe, I McIntosh, S Davies, J Jones, G Pugh, P Davies, A Jones, K Roberts-Jones, R Harris a J Pugh ddatgan budd yn yr eitem hon.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir David Meredith:

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn sefyll yn gadarn y tu ôl i Lluoedd Arfog y DU ac yn llwyr gefnogi amcanion Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- Yn croesawu Deddf newydd y Lluoedd Arfog ond yn gweld y ddeddfwriaeth fel cyfle a gollwyd i wella bywydau cyn-filwyr ym Mhowys.
- Yn nodi gyda siom fod y Ddeddf, sy'n ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i Gyngor Sir Powys a chyrrff cyhoeddus lleol roi "sylw dyledus" i'r Cyfamod wrth roi cymorth i gymunedau'r Lluoedd Arfog, yn eithrio'r llywodraeth ganolog o'r ddyletswydd hon gan greu Cyfamod 'dwy haen' i gyn-filwyr.
- Yn nodi gyda siom bellach fod Aelodau Seneddol Ceidwadol wedi pleidleisio yn erbyn cynigion Llafur, oedd wedi eu cefnogi gan y Lleng Brydeinig Frenhinol a chyn-benaethiaid y Lluoedd, i wreiddio'r Cyfamod yn llawn mewn cyfraith gan wella llety, cymorth cyflogaeth a phensiynau i'r Lluoedd Arfog a rhoi diwedd ar sgandal y ffioedd fisa ar gyfer personél Gyrcas a'r Gymanwlad.
- Yn penderfynu parhau i ymgyrchu ag elusennau'r Lluoedd Arfog i gael Llywodraeth y DU i gryfhau'r Cyfamod a gwella gwasanaethau hanfodol i gyn-filwyr.

Dywedodd y cynigydd, y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance, fod y Ddeddf yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol ond nid ar lywodraeth. Roedd yn croesawu'r amlygrwydd yr oedd yr Arweinydd, yn ei rôl fel Pencampwr y Lluoedd Arfog, yn ei roi i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Dywedodd, ers cyflwyno'r cynnig, nad oedd yn rhaid i bersonél Gyrcas a'r Gymanwlad dalu'r ffioedd fisa mwyach ond bod eu dibynyddion yn dal i orfod gwneud. Siaradodd eilydd y cynnig, y Cyngorydd Sir David Meredith, am y manteision aruthrol yr oedd y gymuned Nepali a'r Gyrcas wedi eu cyfrannu i Aberhonddu. Siaradodd aelodau eraill o blaid y cynnig. Nodwyd bod Fay Jones, AS dros Aberhonddu a Sir Faesyfed, wedi bod yn

flaenllaw gyda sefydlu Comisiynydd Cyn-filwyr ar gyfer Cymru, gyda'r Cynol James Phillips wedi'i benodi i'r rôl ar 1 Mawrth.

PENDERFYNWYD

Bod y Cyngor hwn:

- Yn sefyll yn gadarn y tu ôl i Lluoedd Arfog y DU ac yn llwyr gefnogi amcanion Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- Yn croesawu Deddf newydd y Lluoedd Arfog ond yn gweld y ddeddfwriaeth fel cyfle a gollwyd i wella bywydau cyn-filwyr ym Mhowys.
- Yn nodi gyda siom fod y Ddeddf, sy'n ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i Gyngor Sir Powys a chyrrff cyhoeddus lleol roi "sylw dyledus" i'r Cyfamod wrth roi cymorth i gymunedau'r Lluoedd Arfog, yn eithrio'r llywodraeth ganolog o'r ddyletsydd hon gan greu Cyfamod 'dwy haen' i gyn-filwyr.
- Yn nodi gyda siom bellach fod Aelodau Seneddol Ceidwadol wedi pleidleisio yn erbyn cynigion Llafur, oedd wedi eu cefnogi gan y Llenng Brydeinig Frenhinol a chyn-benaethiaid y Lluoedd, i wreiddio'r Cyfamod yn llawn mewn cyfraith gan wella llety, cymorth cyflogaeth a phensiynau i'r Lluoedd Arfog a rhoi diwedd ar sgandal y ffioedd fisa ar gyfer personél Gyrcas a'r Gymanwlad.
- Yn penderfynu parhau i ymgyrchu ag elusennau'r Lluoedd Arfog i gael llywodraeth y DU i gryfhau'r Cyfamod a gwella gwasanaethau hanfodol i gyn-filwyr.

18. RHYBUDD O GYNNIG – TRAWSNEWID YSGOLION

Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir B Baynham a D Price ddatgan budd yn yr eitem hon.

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman:

Noda'r Cyngor:

1. Ffocws Estyn ar bryderon ynghylch perfformiad yr Awdurdod gyda darparu ar gyfer Ysgolion Uwchradd Powys yn ei adroddiad yn 2019.
2. Y sesiynau ymgynghori a briffio a gynhaliwyd cyn Chwefror 2020 i sefydlu'r rhaglen trawsnewid ysgolion bresennol.
3. Y cyflwyniad gan Bennaeth Ysgol Dolgellau fel rhan o'r gynhadledd ymgynghori ar drawsnewid ar fanteision ysgolion clwstwr mewn ardaloedd gwledig.
4. Y newidiadau mawr i'r ffordd y bu'n rhaid i ysgolion weithio yn ystod pandemig Covid.
5. Y sylwadau diweddar a wnaed mewn Cyfarfod Briffio Aelodau ar Drawsnewid Ysgolion gan Bennaeth Ysgol Uwchradd Pob Oed ym Mhowys a ddywedodd, er bod yr ysgol pob oed yn gweithio, ei bod yn drueni na allai fod wedi ehangu'r manteision drwy gynnwys holl ysgolion cynradd y clwstwr.

6. Bod y Cyngor ar fin cychwyn datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd oherwydd bod yr un presennol wedi methu â chyflwyno'r nifer ddisgwyliedig o eiddo mewn ardaloedd trefol.

Mae'r Cyngor o'r farn:

1. Mai rhaglenni trawsnewid llwyddiannus yw rhai sy'n pwysu a mesur eu cyfeiriad os oes unrhyw newidiadau cymdeithasol neu fusnes mawr a allai newid y dull arfaethedig o ddarparu gwasanaeth.
2. Bod pandemig Covid wedi cyflwyno newid mor sylfaenol a bod ei effaith ar y farchnad dai ym Mhowys ond yn dechrau dod yn amlwg, ynghyd â'r effaith ddemograffig yn sgîl hynny.
3. Bod y cydweithio agos rhwng clystyrau ysgolion dros y 24 mis diwethaf yn golygu bod rhannau helaeth o'r seiliau dros newid sy'n ategu'r rhaglen drawsnewid bresennol, yn enwedig yng nghyswllt darparu'r cwricwlwm newydd, efallai wedi cael eu disodli gan newidiadau i ffyrdd o weithio ar y ddaear.
4. Nad yw'r model ysgolion clwstrw a amlinellwyd yn y gynhadledd drawsnewid, a dderbyniodd gefnogaeth drawsbleidiol fel sail dros newid, wedi cael ei brofi'n iawn fel ffordd ymlaen mewn unrhyw un o'r cynigion trawsnewid presennol fel y gallai fod y Cyngor yn agored i Adolygiad Barnwrol o dan bolisi Ysgolion Gwledig Llywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
5. Y gallai'r Cabinet, yn niffyg y wybodaeth yma, fod wedi gwneud penderfyniadau y gallent o gael eu briffio ymhellach fod eisiau eu hailystyried.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn i'r Cabinet

1. Gohirio, am flwyddyn, y broses o weithredu'r holl gynigion presennol i gau ysgolion a gymeradwywyd gan y Cabinet dros y 18 mis diwethaf.
2. Gofyn i'r tîm trawsnewid gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r tybiaethau sy'n ategu'r rhaglen o ran newidiadau i ffyrdd o weithio mewn clystyrau yn ystod pandemig Covid-19.
3. Gofyn i'r tîm trawsnewid gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r model ysgolion clwstrw a gynigiwyd yn y gynhadledd drawsnewid, fydd yn cynorthwyo i ddatblygu darpariaeth uwchradd ac ôl-19, ond sydd heb ei ystyried mewn unrhyw un o'r cynigion yn dilyn hynny.
4. Am i'r ddau adroddiad gael eu cyhoeddi cyn diwedd tymor yr haf i fod ar gael i'w trafod gan y Cyngor llawn i'w craffu cyn i unrhyw benderfyniadau a wnaed eisoes naill ai gael eu hail-gadarnhau neu eu rhoi heibio yn ystod tymor yr hydref 2022, i'w gweithredu ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Roedd y cynigydd, y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, yn dadlau mai'r model ysgolion clwstrw oedd yr un a ddylai gael ei ddewis ac y dangoswyd iddo fod wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig. Lleisiodd y Cynghorydd Sir Jake Berriman, a eiliodd y cynnig, ei siom fod y rhaglen trawsnewid ysgolion yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd unigol yn hytrach na dalgylchoedd uwchradd. Galwodd am ohirio cau'r ysgolion a dderbyniodd rybudd i gau'n ddiweddar.

Gadawodd y Cynghorydd Sir G Ratcliffe am 16.52pm.

Atgoffodd Daliwr y Portffolio Addysg ac Eiddo'r Cyngor fod adroddiad Estyn wedi nodi bod cynnydd cryf yn cael ei wneud gyda gweithredu eu hargymhellion blaenorol, ac a oedd yn cymeradwyo'r rhaglen trawsnewid ysgolion. Gofynnodd yr aelodau am y cwricwlwm newydd ac a oedd yn bosib ei ddarparu mewn

ysgolion bach. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg na ddylid diystyru'r llwyth gwaith a fyddai gan ysgolion yn darparu'r cwricwlwm newydd. Roedd yn poeni y byddai gohirio'r rhaglen trawsnewid ysgolion yn atal y cynnydd da sy'n cael ei wneud ac a oedd wedi'i gydnabod gan Estyn.

Roedd y bleidlais ar y cynnig yn gyfartal gyda 24 dros ac yn erbyn ac 1 yn ymatal, ac fe'i collwyd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

19. RHYBUDD O GYNNIG BRYS

Cytunodd y Cadeirydd y gallai'r rhybudd o gynnig brys canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir John Morris, ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, gael ei ystyried.

1. Bod Cyngor Sir Powys yn condemnio gweithredoedd Rwsia'n ymosod ar Wcráin ac yn gwneud popeth yn ei allu i gefnogi Wcráin a'i phobl.
2. Bod y Cyngor yn gofyn i Bwyllgor Pensiynau a Buddsoddi Powys a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ystyried dadfuddsoddi unrhyw gysylltiad ariannol neu fuddsoddiad mewn cwmnïau o Rwsia.
3. Bod pob ymdrech yn cael ei wneud cyn gynted â phosib i ymchwilio i, a pheidio â phrynu, unrhyw nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chwmnïau o Rwsia a phopeth yn cael ei wneud i gefnogi Wcráin a'i phobl.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Peter Lewis, Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi, fod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyfarfod y diwrnod cynt ac wedi cytuno i ddadfuddsoddi gydag unrhyw gwmnïau o Rwsia cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib. Cytunodd cynigydd ac eilydd y cynnig i roi'r geiriau "Arlywydd Putin a lluoedd arfog Rwsia" yn lle "Rwsia" ym mhwynt 1. Yn unfrydol,

PENDERFYNWYD

1. **Bod Cyngor Sir Powys yn condemnio gweithredoedd yr Arlywydd Putin a lluoedd arfog Rwsia'n ymosod ar Wcráin ac yn gwneud popeth yn ei allu i gefnogi Wcráin a'i phobl.**
2. **Bod y Cyngor yn gofyn i Bwyllgor Pensiynau a Buddsoddi Powys a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ystyried dadfuddsoddi unrhyw gysylltiad ariannol neu fuddsoddiad mewn cwmnïau o Rwsia.**
3. **Bod pob ymdrech yn cael ei wneud cyn gynted â phosib i ymchwilio i, a pheidio â phrynu, unrhyw nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chwmnïau o Rwsia a phopeth yn cael ei wneud i gefnogi Wcráin a'i phobl.**

Cytunodd y Cadeirydd i anfon llythyr yn dymuno'n dda i'r Cynghorydd Sir Martin Weale. Diolchwyd i'r Cadeirydd am y ffordd iddo gadeirio'r Cyngor.

Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)